



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 19: 10856 (Rhan 2)

Canol De Cymru

17. Gŵyr a Gorllewin Abertawe Abertawe yw'r rhan bwysig o'r etholaeth a'r brif ran. Mae Gŵyr yn rhan o Abertawe, nid Abertawe yn rhan o Gŵyr. Mae pawb yn adnabod Abertawe. Felly, fel yn y cynigion cychwynnol, dylai Abertawe ddod yn gyntaf. Hefyd, fel y gwnaed gyda HOLL etholaethau Abertawe, yna byddant i gyd yn cael eu rhestru gyda'i gilydd, sy'n ddefnyddiol ac yn hawdd ei ddefnyddio. Hynny yw, naill ai Gorllewin Abertawe a Gŵyr neu Abertawe- Gŵyr. (Gŵyr yw'r ward fwyaf o ran maint). 17. Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

28. Canol a Gogledd Abertawe Fel y mae etholaeth 17 yn disgrifio'r rhan y tu allan i'r ddinas yn briodol. Byddai'n dda i'r etholaeth hon wneud yr un fath. Mawr yw'r ward fwyaf yma, ac mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r rhan hon o'r etholaeth. Felly, yr enw Canol Abertawe a Mawr neu Abertawe- Mawr. Fel uchod, mae'n rhoi holl etholaethau Abertawe gyda'i gilydd. 28. Canol Abertawe a Mawr

23 Castell-nedd a Dwyrain Abertawe Eto, mae Abertawe yn bwysicach, ac ati. Mae rhoi holl etholaethau Abertawe gyda'i gilydd yn beth da. Pe bai rhywun yn defnyddio trefn y wyddor, gydag Abertawe yn Gymraeg, byddai'n dod gyntaf ym mhob un o'r tri achos. Gyda threfn y wyddor mae'n rhaid i chi ddewis pa iaith i'w defnyddio. Byddai gan bob iaith ei threfn ei hun a rhif etholaeth. Wrth ddewis un iaith rydych chi'n gosod un iaith uwchlaw'r llall. Maent yn gyfartal. Gyda phwysigrwydd y lleoliad mae hyn yn osgoi hyn i gyd. Felly, fel gwnaeth y cynigion cychwynnol, Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. 23. Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd

1 Aberafan Porth-cawl Gan ddefnyddio Aberafan/ Aberavon, mae dau enw'n ofynnol pan fydd gan etholaethau enwau yn y ddwy iaith- pan fo'r enw ym mhob iaith yn wahanol. Er hynny, yn y cynigion diwygiedig, rydych chi'n defnyddio'r Gymraeg yn unig. Nid ydych chi wedi gwneud hyn gyda'r holl etholaethau. Mae'n beth da i fod yn gyson drwyddi draw. Naill ai dewis bod pob enw i fod mewn un iaith yn unig. Neu o ran bob etholaeth, yn ôl pa iaith a ffefrir, cael ei enw yn yr iaith honno'n unig. Felly byddai gan bob etholaeth un enw sy'n beth da ar gyfer hunaniaeth, cydlyniant ac ati. Y posibilrwydd arall yw dewis enw sydd union yr un fath neu'n debyg iawn yn y ddwy iaith. Y brif ganolfan a thref yn yr etholaeth yw Port Talbot (y ward fwyaf). Port Talbot oedd enw'r hen fwrdeistref. Y fwrdeistref bresennol yw Castell-nedd Port Talbot. Byddai'n ymddangos yn iawn a chywir i ddefnyddio'r enw hwn ar gyfer yr etholaeth, y mae pawb yn ei wybod. Ni ellir dweud hyn ar gyfer yr enw arall Aberavon/ Aberafan. Hefyd, mae Port Talbot yr un peth yn y ddwy iaith. Felly, yr enw mwy priodol yw Port Talbot Porth-cawl (mae'r ddwy dref yr un fath yn y ddwy iaith). 1. Port Talbot Porth-cawl.

6 Pen-y-bont/ Bridgend

30 Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan

De Ddwyrain Cymru

11 De Caerdydd a Phenarth

12 Gorllewin Caerdydd

10 Gogledd Caerdydd

9 Dwyrain Caerdydd Mae'n cwmpasu Canol a Dwyrain Caerdydd. Canol yw'r rhan fwyaf. Dylai ei enw gynnwys y ddau. Felly Canol a Dwyrain Caerdydd. 9 Canol a Dwyrain Caerdydd.

25 Gorllewin Casnewydd ac Islwyn GWELER ISOD – Casnewydd, Ebwy, Sirhywi, Rhymni

24 Dwyrain Casnewydd

21 Monmouthshire/ Sir Fynwy Yr enw a ddefnyddir yn fwyaf aml i gyfeirio at hyn yw Mynwy. Yr enw hwn i'w ddefnyddio. I fod â'i enw syml Mynwy. 21. Mynwy.

29 Tor-faen

4 Blaenau Gwent a Rhymni GWELER ISOD- Casnewydd, Ebwy, Sirhywi, Rhymni

8 Caerffili GWELER ISOD – Casnewydd, Ebwy, Sirhywi, Rhymni

19 Merthyr Tudful a Chynon Uchaf

26 Pontypridd

27 Rhondda

Casnewydd, Ebwy, Sirhywi, Rhymni Mae'r ddinas hon a'r cymoedd hyn wedi'u rhoi gyda'i gilydd. Mae dau ddewis amgen wedi'u cynnig: un gyda'r cynigion cychwynnol, un gyda'r cynigion diwygiedig. Yn wreiddiol, roedd Caerffili yn mynd gyda Chasnewydd, yna roedd Islwyn yn mynd gyda Chasnewydd. Nid yw Casnewydd, Caerffili nac Islwyn yn hoffi hynny. Mae'r pleidiau gwleidyddol wedi'u rhannu. Roedd Llafur a'r Ceidwadwyr yn cefnogi Casnewydd a Chaerffili gyda'i gilydd. Roedd y Blaid Werdd, ac ati yn cefnogi Casnewydd ac Islwyn gyda'i gilydd. Mae'n well gan etholwyr Caerffili bod Casnewydd ac Islwyn yn mynd gyda'i gilydd. Mae'n well gan etholwyr Islwyn bod Casnewydd a Chaerffili yn mynd gyda'i gilydd. Nid yw'r un ohonynt eisiau mynd i/ gyda Chasnewydd. Mae bob un eisiau i'w hetholaeth eu hunain fod ar wahân, yn unigol, yn annibynnol. Mae pwyntiau da gan y ddau, mewn gwirionedd. Mae manteision ac anfanteision i bob un. Beth am Gasnewydd?

O safbwynt Casnewydd, mae'n gorfod cael unrhyw rai o'r cymoedd, yna byddai'n well ganddo gael y rhai agosaf ato. Yn sicr, y rhai sy'n cydffinio ag ef, sy'n gyfagos iddo. Yna gweithio i fyny'r dyffryn. Ond peidio â mynd i fyny'n rhy bell. Nid ymhell i ffwrdd. Byddai hyn yn sicr yn golygu Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, Bedwas, Trethomas a Machen, St James. Yna Crosskeys ac Ynys-ddu. Ar gyfer Casnewydd, dyna hi. Yn anffodus, mae'r hen beth hwnnw a elwir yn amrediad etholiadol i'w ystyried. Ac mae hwn yn brin. Mae ychwanegu Aber-carn a Threcelyn yn ei fodloni, mae'n dod o fewn yr amrediad etholiadol. Mae hyn yn gadael mwy o'r Cymoedd ar gyfer y Cymoedd. O'r Cymoedd hyn, byddai dwy etholaeth yn cael eu ffurfio.

Yr yr ardaloedd cymoedd hyn, roedd tri dosbarth yn flaenorol. Roedd Cwm Rhymni ym Morgannwg. Roedd Blaenau Gwent ac Islwyn yng Ngwent. Roedd ac mae

Blaenau Gwent ac Islwyn yn cynnwys cymoedd Ebwy a Sirhywi. Byddai'n ymddangos yn gywir felly bod y ddau hyn yn mynd gyda'i gilydd- Dyffryn Sirhywi a Chwm Ebwy/ Blaenau Gwent ac Islwyn. Felly, byddai Blaenau Gwent ac Islwyn yn ffurfio un etholaeth. Byddai Cwm Rhymni yn ffurfio un etholaeth. Felly byddai'r tair etholaeth fel a ganlyn: Gorllewin Casnewydd a'r Cymoedd Dwyreiniol Isaf, Blaenau Gwent ac Islwyn, Cwm Rhymni. Felly, gan ddefnyddio rhifau presennol- amnewid- 25. Gorllewin Casnewydd a'r Cymoedd Dwyreiniol Isaf, 4. Blaenau Gwent ac Islwyn 8. Cwm Rhymni. Byddent yn cael eu ffurfio o'r etholaethau canlynol: -

4 Blaenau Gwent ac Islwyn 77,004

Wards - Sirhowy 4210 Rosau
 2463 Beaufort 2717 Brynmawr 4028 Nantyglo 3350 Badminton
 2452 Ebbw Vale North 3268 Ebbw Vale South 2959 Georgetown 3091
 Treddegar Central & West 4027 Argoed 2035 Cwm 3254 Blaina
 3497 Cwmtillery 3383 Abertillery 3074 Six Bells 1740 Llanhilleth
 3387 Penmaen 4219 Blackwood 6330 Cefn Forest 2845
 Pontmanfraith 6343 Crumlin 4332

8 Cwm Rhymni 71,147

Wards - Islwyn Carno 1721 Moriah 3128
 Ponthllyn 1432 New Treddegar 3357 Darren Valley 1870 Aberbargoed
 2706 Bargoed 4431 Gilfach 1534 St Cattwg 5579 Pengam 2760
 Mengoed 4055 Ystrad Mynach 4067 Nelson 3563 Aber Valley
 4655 Llanbradach 3239 Maesycwmmur 1811 Penyrheol 9021
 Morgan Jones 5636 St Martins 6582

25 Gorllewin Casnewydd a'r Cymoedd Dwyreiniol Isaf 71,620


Wards - Marshfield 4897
 Treddegar Park 3329 Gaer 6543 All-yr-Yn 7088 St James
 4267 Graig 5053 Rogerstone 9421 Risca East 4611 Risca West 3973
 Bedwas Trethomas & Machan 7902 Ynyscedu 2978 Crosskeys 2527
 Abercam 4139 Newbridge 4892.

25 Nid yw etholaeth Casnewydd yn mynd yn rhy bell i fyny'r cwm ag y mae Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn gwneud- rhy bell o lawer. Mae rhoi Coed-duon gyda Chasnewydd yn ormod. Mae'n cynnwys yr holl wardiau sy'n agos ato. Y rhai sydd â

mwy o gysylltiad ag ef nag unrhyw rai eraill. Mae ganddynt gysylltiadau da, nid yw'n bell, mae'n hawdd teithio yno ac nid yw'n cymryd llawer o amser. Gallai'r enw fod fel uchod. Fel arall, gallai fod yn Gorllewin Casnewydd ac Ebwy Sirhywi Rhymni Isaf. Mae'r ddau yn disgrifio'r ardal a gwmpesir gan yr etholaeth.

8 Gallai'r enw fod fel uchod. Fel arall, gallai fod yn Rhymni, yn syml.

Casnewydd Ebwy Sirhywi Rhymni



4 Blaenau Gwent ac Islwyn 77,004

8 Cwm Rhymni 71,147 25 Gorllewin Casnewydd a'r Cymoedd Dwyreiniol Isaf 71,620

Boed i'r awgrymiadau uchod fod yn ddefnyddiol.

Dymunaf y gorau i chi yn eich ymdrech a'ch gwaith i gael y gorau posibl i Gymru. Y set orau bosibl o 31 o etholaethau ar gyfer Cymru gyfan. Gyda phob ardal yn cael ei thrin yn deg a chyfartal. I lunio'r adroddiad gorau i fynd i'r Senedd. Mae llawer i'w wneud yn y saith mis nesaf. Boed i chi gyd gadw'n iach, yn enwedig drwy'r gaeaf. Cadwch fy holl fanylion, enw, cyfeiriad, ac ati yn breifat a chyfrinachol os gwelwch yn dda.


Dymunaf y gorau i chi, eich teulu, y Comisiynwyr a'ch holl dîm. Diolch i chi am eich holl waith ac ystyriaeth.

Pob hwyl i chi.

Yr eiddoch yn gywir,



Map Etholaethau ar gyfer Cymru



Allwedd i Rifau Etholaethau gweler y testun



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru